

Meini Prawf Cymhwyster A'r Weithdrefn Apeliadau



Y weithdrefn sydd yn ymwneud â chymhwysiad meini prawf cymhwyster gan gynnwys apeliadau

Yn dilyn canllaw o Gynulliad Cymru ac wedi ymgynghoriad lleol, mae Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent wedi cyflwyno Meini Prawf Cymhwyster ar gyfer gwasanaethau i Bobl Hŷn o Fawrth 2003. Mae'r Meini Prawf Cymhwyster wedi eu cyflwyno i gydymffurfio â chanllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru "Creu System Unedig a Theg ar gyfer Asesu a Rheoli Gofal" (2002). Bydd y meini prawf yn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu dyrannu yn fwy cyfartal i adlewyrchu angen.



Y pedair lefel o feini prawf ar gyfer gofal y bydd Blaenau Gwent yn gosod yw:

- Diwallu anghenion y bobl hynny sydd mewn risg critigol.
- Diwallu anghenion y bobl hynny sydd wedi eu hasesu o fod mewn risg sylweddol.
- Diwallu anghenion y bobl hynny sydd wedi eu hasesu o fod mewn risg cymedrol.
- Diwallu anghenion y bobl hynny sydd mewn risg isel.

Mae'r Cynulliad yn datgan mai'r ffactor allweddol yw a oes yna risg i'ch annibyniaeth os nad yw eich anghenion yn cael eu diwallu.

**Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau
Cymunedol**

Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae gofyn i Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol yn gyfreithiol i bennu a oes angen asesiad angen arnoch. Gall rhai ymholiadau cael eu hateb yn syml neu eu trosglwyddo i wasanaeth mwy perthnasol. Bydd aelod o staff enwebedig yn cysylltu â'r rhai hynny sydd yn gymwys ar gyfer asesiad er mwyn trefnu amser a lle i asesu eich anghenion.


Wedi asesu eich anghenion a chytuno arnynt hwy gyda chi, mae'n ofynnol i ni eu cydweddu gyda'r meini prawf cymhwyster sydd wedi eu cymeradwyo gan y Cynulliad a'u rhoi mewn lle gan y cyngor lleol. Mae'r broses hon yn pennu pa grŵp yr ydych ynddo.

O'r pedwar grŵp a ddisgrifiwyd, bydd Blaenau Gwent yn cwrdd ag anghenion y sawl sydd wedi eu hasesu o fod mewn risg sylweddol. Ni fydd anghenion lefel isel yn derbyn gwasanaeth er y byddwch yn derbyn gwybodaeth i gael gwybod lle y gallwch brynu gwasanaethau yn breifat.

Bydd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio i gynorthwyo pobl sydd yn methu rheoli'r gweithgareddau a ddynodir yn y lefel Meini Prawf Cymhwyster perthnasol.

Ni fydd pobl sydd yn medru rheoli gweithgareddau eu hunain, neu gyda chymorth cytunedig teulu neu ofalydd anffurfiol, yn gymwys am gymorth oddi wrth yr Adran ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

Am fwy o wybodaeth, gofynnwch i'r aelod o staff sydd yn ymgymryd â'ch asesiad.




Bydd y rhai hynny sydd yn gymwys yn trafod cynllun gofal gyda'u cydlynnydd gofal. Bydd hyn yn manylu ar:

- Beth fydd yn cael ei ddarparu?
- Pa amcanion y bydd yn ceisio ei gyflawni?
- Pwy fydd yn ei ddarparu?
- Am ba hyd y caiff ei ddarparu?

Prif nod y gwasanaethau sydd yn cael eu darparu gan Blaenau Gwent yw galluogi pobl i reoli eu bywydau eu hunain mor annibynnol â phosib mewn amgylchiadau sydd yn neu mor agos â phosib i'w cartrefi eu hunain.

Mae'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau bod anghenion cyfnewidiol yn medru cael eu diwallu ac o'r herwydd bydd yr holl wasanaethau a ddarperir gennym wedi eu cyfyngu o ran amser. Bydd y dyddiad adolygu nesaf yn cael ei ddatgan bob tro yn y cynllun gofal.

Bydd yr adolygiad yn ail asesu eich anghenion a'ch statws cymhwyster. Wrth i'ch anghenion newid, bydd eich gwasanaethau yn newid hefyd. Byddwch yn derbyn copi o'ch cynllun gofal ac wrth gwrs, byddwch yn ymwneud gyda'r adolygiad. Mae gofyn talu am rai o'r gwasanaethau o dan Polisi Codi Tâl y Cyngor a bydd hyn yn cael ei wneud yn eglur cyn i chi arwyddo'r cynllun gofal.



Ar adegau prin iawn, efallai y byddwch yn cael eich asesu i ddangos bod angen arnoch ond ni fydd y Cyngor yn medru darparu gwasanaeth gan nad oes gwasanaethau ar gael ar gyfer eich anghenion. Bydd y rhain yn cael eu cofnodi fel heb eu cyflawni a bydd ein comisiynwyr arbennig yn gweithio er mwyn annog darparwyr gwasanaeth lleol i ddiwallu'r fath anghenion lle bo'n bosib.

Apeliadau yn erbyn cymhwysiad meini prawf cymhwyster?

Efallai y bydd eich asesiad yn arwain at ddyraniad gwasanaeth. Mae'r penderfyniad i drefnu gwasanaethau yn dibynnu ar ddehongliad o'ch amgylchiadau personol yn erbyn anghenion cymhwyster.


Os ydych yn anhapus gyda'r penderfyniad hynny:

- Yn y lle cyntaf, trafodwch eich sefyllfa gyda'ch aseswr.
- Os nad oes modd datrys y mater mewn modd sydd yn foddhaol i chi, gallwch apelio i'r Rheolwr Tîm sydd yn medru dwyn y mater i sylw Pennaeth y Gwasanaeth os oes angen eglurhad pellach.

Os nad oes modd datrys yr anghytundeb drwy'r sianel hon, gallwch ystyried wneud cwyn drwy Weithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gwenwch gais am y taflenni cysylltiedig hyn o unrhyw Swyddfa Gwasanaethau Cymdeithasol:

- Asesiad am Wasanaethau Gofal Cymunedol
- Gwrando a Dysgu... Argymhellion, Canmoliaeth, Cwynion a Chynrychioliadau



Sut i gysylltu â ni:

C2BG
Canolfan Gyswilt
Depot Canolog
Stad Ddiwydiannol Barleyfield
Brynmawr
NP23 4YF

Ffôn: (01495) 315700



I dderbyn yr wybodaeth hon mewn Braille, print bras, yn electronig neu ar dâp sain cysylltwch â'r Swyddog Gwybodaeth ar (01495) 354630 os gwelwch yn dda.

Taflen AS009-1 Chwefror 2009
www.blaenau-gwent.gov.uk